# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*ClerkandChief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 28 Medi 2017**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Susan Davies

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Linda Brown. Ymddiheuriadau gan y Cyngr. Neville Hughes a Pearl Evans. Ymddiheuriadau hefyd gan y Cyngr. Sir- Rheinallt Puw a Paul Rowlinson.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6, Llys Dafydd: Y Cyngr. GodfreyNortham, Linda Brown ac Ann Williams; Eitem 7, Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Griff Morris.

**3. Materion Brys**
**3.1** Parcio tu allan i Gorffwysfan-adroddwyd bod ceir yn dal i barcio ar y palmant/darn o dir sydd yn gwneud hi'n anodd i breswylwyr John Street ymuno a'r Stryd Fawr. Y Clerc i holi am y gwaith i'r wal a'r arwydd
**3.2** Gerlan-adroddodd y Cyng. Linda Brown bod dau gŵyn wedi eu derbyn. Y cyntaf ynglŷn a trefniant casglu sbwriel yn Gwernydd-y trigolion yn flin oherwydd nad yw'r lori ailgylchu yn dod i lawr yr allt i gasglu'r biniau mwyach. Y Cyng. Paul Rowlinson wedi sôn gyda swyddog Cyngor Gwynedd ac mae hyn oherwydd bod problem wedi codi gyda'r cerbyd arbennig oedd yn mynd i lawr y strydoedd cul, ond eu bod yn edrych i mewn i'r sefyllfa i gynnig datrysiad.
Yn ail, roedd cwynion wedi eu derbyn bod bws Arriva yn mynd i stopio mynd fyny i Gerlan yn y prynhawn, fuasai yn achosi trafferthion i'r henoed sy'n mynychu clybiau yn y Gerlan. Y Cyng. Linda Brown wedi cael gair gyda Mr Dafydd Williams, Rheolwr Arriva sydd wedi cadarnhau na fydd hyn yn digwydd. Y Clerc i anfon e-bost i gael cadarnhad ysgrifenedig.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2017.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Cloddiau wedi gordyfu ar hyd Ffordd Newydd Gerlan-**roedd y Cyng. Rheinallt Puw wedi ymweld a'r safle gyda Cyngor Gwynedd a oedd yn meddwl bod y cloddiau yn iawn fel y mae

nhw. Adroddwyd bod y cloddiau wedi tyfu fwy ers y cyfarfod diwethaf, ac bod plant yn cerdded yn y ffordd sy'n beryglus ofnadwy. Angen anfon cwyn at Gyngor Gwynedd unwaith eto.
**5.2 Y gofeb** –adroddwyd bod y gwaith pwyntio wedi ei wneud, ond ei fod yn flêr ofnadwy. Y Clerc i ofyn am y gwaith gael ei ail-wneud.
Adroddwyd bydd gwasanaeth Sul y Cofio i ddigwydd 12.11.17 am 10.45yb. Y Clerc i archebu torch ar gyfer y digwyddiad.
**5.3 Tudalen 'Facebook' –** y Cyng. Bleddyn Williams a'r Clerc i edrych mewn sut mae creu tudalen ar gyfer y Cyngor. Penderfynwyd bydd y Clerc yn postio unrhyw newyddion ar dudalen 'Ogwen'.
**5.4** Maes parcio Gerlan-adroddwyd bod cwynion wedi eu derbyn ynglŷn a llanast yn y maes parcio. Y Cyng. Paul Rowlinson am ddod a hyn i sylw Cyngor Gwynedd. Y Cyng. Paul Rowlinson wedi darganfod nad Cyngor Gwynedd bia'r safle mwyach ond Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Adroddwyd bod CCG wedi addo tacluso'r safle.

**6. Adroddiad Llys Dafydd**
Adroddwyd bod y ffurflenni am gael eu llenwi ar gyfer dadgofrestru Cwmni Llys Dafydd, ac bod digwyddiad ar y safle penwythnos hon fel rhan o ddigwyddiad Gŵyl Afon Ogwen. Trafodwyd bod perchnogion Crochendy Bethesda wedi cynnig bod yn gyfrifol am agor a chau Llys Dafydd ar y penwythnosau fel bod y safle ar gael i'r cyhoedd. Penderfynwyd derbyn y cynnig am gyfnod i'w dreialu.
Y Clerc wedi holi am leoli bin 1100L ar y safle i gadw bagiau sbwriel sy'n cael eu llenwi gan y Gweithiwr Cynnal. Penderfynwyd bod hyn yn dderbyniol.
Adroddwyd bod plant ysgol wedi eu gweld yn dringo ar dô'r safle cyn 9yb, felly penderfynwyd gofyn wrth y gofalwr i agor y safle ar ôl 9yb, ac hefyd i holi am brisiau paent gwrth-ddringo.

**7. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Adroddwyd bod y Bwrdd Rheoli wedi cyfarfod 5 Medi, lle cafwyd adroddiadau eiddo a chyllid ac hefyd diweddariad gan y Rheolwr Prosiect am ei holl waith. Adroddwyd bod Lucinda Enston wedi cychwyn ar y swydd Gweithiwr Cynnal ac bod canmoliaeth am ei gwaith.

**8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
**Hyfforddiant-** y Cyngr. Godfrey Northam, Mary Jones a Einir Williams wedi mynychu hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn ddiweddar ac wedi cael budd ohono.

**9. Maes parcio ar gyfer 'campervans'**
Yn dilyn y cyfarfod ym Mhlas Ffrancon 7 Medi 2017, roedd swyddogion Arloesi Gwynedd Wledig a Chyngor Gwynedd yn gefnogol iawn o'r syniad. Penderfynwyd bod y Cyngor yn cytuno, mewn egwyddor i ysgwyddo costau sefydlu'r safle (cannoedd, dim miloedd). Y Clerc i gysylltu am ddiweddariad.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2017'
**10.1**. E-bost gan Grŵp Cynefin-ymgynghoriad cyn-cyflwyno cais cynllunio Bethesda, ar dir Hen Safle'r Orsaf, Ffordd Stesion. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn cefnogi'r cais. Trafodwyd bydd fwy fwy o angen drych ar y Stryd Fawr wrth Londis, ac bydd parcio ar gyfer y Feddygfa efallai yn broblem.
**10.2** E-bost gan Heddlu Gogledd Cymru-hysbysiad am eu cynllun 'Cadw Cymru'n Ddiogel'. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn hapus i dderbyn pamffledi ynglŷn a'r cynllun.

**10.3** E-bost gan Pobty pizza-cais i ddefnyddio Llys Dafydd ar nosweithiau Gwener. Penderfynwyd bydd angen holi am fwy o wybodaeth cychwynnol, ond bod y Cyngor yn gefnogol.
**10.4** Llythyr gan Delyth Hughes a Susan Hart-cais am gyllid i wella parc chwarae Rachub. Penderfynwyd dod a cynnwys y llythyr at sylw'r grŵp gwasanaethau ac asedau Dyffryn Ogwen, fydd yn cyfarfod mis nesaf. Y Clerc i anfon gwahoddiad y cyfarfod at y Cyngr. Bleddyn Williams a Einir Williams hefyd.
**10.5** E-bost gan Llwybr Llechi Eryri-digwyddiad i ddathlu agoriad y llwybr yn Neuadd Ogwen 10 Tachwedd 2017. Penderfynwyd bydd pawb sydd ar gael yn mynychu.
**10.6** E-bost gan Gyngor Gwynedd-ffurflenni aelodaeth ar gyfer llywodraethwyr ysgolion Cynradd-adroddwyd bod y Cynghorwyr wedi llenwi'r ffurflen yn barod yng nghyfarfodydd yr ysgolion.
**10.7** E-bost gan y Cyng. Ann Williams yn hysbysu fod panel cysgodfan bws Braichmelyn wedi cael difrod unwaith eto. Penderfynwyd tynnu'r ddau banel oddi yno.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C17/0556/13/LL** | |
| 18 Hill Street, Gerlan | Codi estyniad llawr cyntaf ar ben estyniad unllawr cefn presennol<br>**Caniatawyd, gydag amodau** |
| **C07/0411/13/LL** | |
| Heulfryn, Carneddi Road, Carneddi | Codi estyniad dros estyniad unllawr<br>**Caniatawyd, gydag amodau** |
| **C17/0604/13/CR** | |
| Capel Bethania, Ffordd Bangor, Bethesda | Gwaith atgyweirio i gynnwys dymchwel adeilad/estyniad allanol presennol<br>**Caniatawyd, gydag amodau** |
| **C17/0352/13/LL** | |
| 5 Rhes Ogwen, Bethesda | Newid defnydd yr islawr i fragdy<br>**Cefnogi**<br>**Caniatawyd, gydag amodau** |
| **C17/0783/13/LL** | |
| 12 Glanogwen, Bethesda | Estyniad deulawr ar gefn yr eiddo, dymchwel modurdy presennol ac adeiladu modurdy newydd<br>**Cefnogi**<br>**Caniatawyd, gydag amodau** |
| **C17/699/13/LL** | |
| Capel Bethania, Henbarc, Rachub | Cais i gynnwys 2 ystafell wely ychwanegol yng ngofod y capel a newidiadau i'r fynedfa mewn cysylltiad a chaniatâd cynllunio C17/0367/13/LL<br>**Dim gwrthwynebiad**<br>**Caniatawyd, gydag amodau** |

**<u>Ceisiadau</u>**
Dim ceisiadau i'w ystyried

**12. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Awst a Medi) | £520.00 |
| CThEM (Awst a Medi) | £130.00 |
| C Jackson –Llwybrau | £1994.50 |
| Londis-papurau(Gorffennaf a Awst) | £49.55 |
| Scottish Power – Golau Nadolig | £16.49 |
| E Goodall-ffenestri Gorffwysfan (Gorffennaf a Medi) | £14.00 |
| C Jackson-Gofeb a lloches bws | £135.00 |
| British Gas-Trydan Llys Dafydd | £36.83 |
| Scottish Power-Golau Nadolig | £10.58 |
| Scottish Power-Golau Nadolig | £12.89 |
| Parry & Co-archwiliad mewnol | £330.00 |
| Partneriaeth Ogwen-gwasanaeth clercio a datblygu cymunedol | £10369.21 |
| G Northam-ad-daliad treuliau | £21.80 |